Archwilio Cymru
Audit Wales

# Diweddariad ar Gynnydd o ran Cynllunio i Ryddhau Cleifion – Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2025

Cyfeirnod y ddogfen: 4886A2025

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 4

Canfyddiadau allweddol 5

Argymhellion 5

Adroddiad manwl

Rhoi argymhellion archwilio blaenorol ar waith 8

Atodiadau

Atodiad 1 – dulliau archwilio 12

Atodiad 2 – crynodeb o'r cynnydd yn erbyn yr argymhellion a wnaethom yn 2018 14

Atodiad 3 – ymateb y rheolwyr 16

# Adroddiad cryno

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

1 Yn 2017-18, fe wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol adolygu'r modd y cynllunnir i ryddhau cleifion ym mhob Bwrdd Iechyd yng Nghymru. Fe ganolbwyntiodd y gwaith hwnnw ar gynllunio strategol, trefniadau i fonitro ac adrodd ar gynllunio i ryddhau cleifion, a chamau gweithredu a oedd yn cael eu cymryd i reoli trefniadau cynllunio i ryddhau cleifion a sicrhau gwelliannau. Canfu ein hadroddiad ar gynllunio i ryddhau cleifion yn 2018 ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe[1] (y Bwrdd Iechyd) fod y '**Bwrdd Iechyd yn cydweithio â rhanddeiliaid i wella llif cleifion a chynllunio i ryddhau cleifion, ac er bod perfformiad wedi gwella mae mwy o waith i'w wneud o hyd'**. Fe wnaethom nifer o argymhellion i'r Bwrdd Iechyd ymdrin â hwy.

2 Yn wreiddiol roedd yr Archwilydd Cyffredinol wedi cynnwys gwaith yn ei gynlluniau archwilio lleol ar gyfer 2021 i archwilio materion system gyfan a oedd yn effeithio ar wasanaethau gofal brys ac argyfwng, gan gynnwys rhyddhau cleifion o'r ysbyty. O ganlyniad i bandemig COVID-19 fe ohiriwyd y gwaith hwn ac fe'i rhoddwyd yn ôl ar y gweill yn 2023 a 2024. Roedd ein gwaith yn ceisio archwilio a oes gan fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol drefniadau effeithiol i sicrhau bod cleifion yn cael eu rhyddhau'n amserol o'r ysbyty. Caiff canfyddiadau'r gwaith hwnnw eu nodi mewn adroddiad ar wahân i'r Bwrdd Iechyd a'r awdurdodau lleol sy'n bartneriaid iddo yn rhanbarth Gorllewin Morgannwg. Bydd yr adroddiad rhanbarthol ar gael ar ein gwefan unwaith y bydd pwyllgorau priodol y Bwrdd Iechyd a'r awdurdodau lleol wedi ei ystyried.

3 Fel rhan o'n gwaith rhanbarthol, rydym wedi ceisio asesu'r cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd o ran ymdrin â'r argymhellion a nodwyd yn ein hadroddiad ar gynllunio i ryddhau cleifion yn 2018. Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r canfyddiadau mewn perthynas â chynnydd yn erbyn yr argymhellion. Caiff y dull a fabwysiadwyd gennym i gyflawni ein gwaith ei nodi yn **Atodiad 1**.

4 Rydym wedi gwneud y gwaith dilynol a'n hadolygiad rhanbarthol ehangach i helpu i ateb gofyniad statudol yr Archwilydd Cyffredinol i fod wedi'i argyhoeddi bod gan gyrff y GIG ac awdurdodau lleol drefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn eu defnydd o adnoddau, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Hefyd, i ategu ein gwaith blaenorol ar gynllunio i ryddhau cleifion, fe gynhyrchom ni 'Beth yw'r oedi? Rhyddhau cleifion yng Nghymru' sy'n nodi materion pwysig y dylai aelodau o fyrddau gael gwybod amdanynt wrth geisio sicrwydd bod cleifion yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty mewn ffyrdd diogel ac amserol. Mae llawer o'r materion a adnabuwyd yn dal i fod yn berthnasol a dylid eu hystyried ochr yn ochr â chanfyddiadau'r adroddiad hwn.

[1] Ar adeg ein gwaith yn 2018, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg oedd y sefydliad.

# Canfyddiadau allweddol

5 Roedd data o fis Medi 2024 yn dangos, ar draws prif safleoedd ysbytai'r Bwrdd Iechyd, fod 258 o gleifion y bu mwy na 48 awr o oedi cyn eu rhyddhau. Roedd yr oedi mewn oddeutu 14% o'r achosion hyn yn ymwneud â materion cynllunio i ryddhau yn y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys cwblhau asesiadau clinigol.

6 Yn gyffredinol, cyfyngedig yw'r cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd o ran ymdrin â'r argymhellion a wnaed gennym yn 2018 i helpu i wella'r broses o gynllunio i ryddhau cleifion. Fe wnaeth yr adroddiad a gyhoeddwyd gennym yn 2018 bedwar argymhelliad a oedd yn nodi chwe cham gweithredu penodol ar gyfer y Bwrdd Iechyd. Gan nodi bod y Bwrdd Iechyd wedi derbyn yr argymhellion hyn, canfu ein gwaith dilynol fel a ganlyn:

- nad oes cynnydd wedi cael ei wneud yn erbyn pump o'r camau gweithredu; a
- bod gwaith yn dal i fynd rhagddo yn erbyn un cam gweithredu.

7 Rydym yn nodi bod cyflwyno Rhyddhau i Adfer yna Asesu (D2RA) wedi newid dull y Bwrdd Iechyd o gynllunio i ryddhau cleifion a bod y Bwrdd Iechyd bellach yn mabwysiadu'r llwybrau D2RA a fandadir yn genedlaethol, ond mae'r canlynol yn achosi pryder:

- na fu rhyw lawer o weithredu i ddatblygu polisi rhyddhau cleifion ar draws y Bwrdd Iechyd cyfan;
- mai ychydig o gynnydd o wnaed i gryfhau llwybrau rhyddhau cleifion cyfredol a'u hegluro wrth staff perthnasol;
- na wnaed unrhyw gynnydd o ran darparu hyfforddiant ar gynllunio i ryddhau cleifion; a
- bod peth gweithredu wedi bod i gryfhau'r modd yr adroddir ar berfformiad o ran llif cleifion a chynllunio i ryddhau cleifion wrth y Bwrdd a'i bwyllgorau, er nad yw gwybodaeth ar gyfer y mesurau a argymhellwyd gennym ni'n flaenorol yn cael ei chasglu eto er gwaethaf y pwysau sylweddol a achosir gan oedi cyn rhyddhau cleifion.

8 Mae'r adrannau canlynol o'r adroddiad hwn yn nodi ein canfyddiadau dilynol mewn mwy o fanylder ac mae **Atodiad 2** yn crynhoi ein hasesiad o'r cynnydd yn erbyn pob un o'r camau gweithredu a adnabuwyd yn yr adroddiad a gyhoeddwyd gennym yn 2018.

# Argymhellion

9 Mae ein gwaith dilynol a'n hadroddiad rhanbarthol ehangach ar lif cleifion wedi adnabod rhai argymhellion newydd ynghylch cynllunio i ryddhau cleifion ar gyfer y Bwrdd Iechyd a, lle y bo'n berthnasol, yr awdurdodau lleol sy'n bartneriaid iddo. Mae'r rhain wedi disodli'r argymhellion a oedd heb gael sylw o'n gwaith yn 2018 a ddangosir yn **Atodiad 2**.

10 Caiff argymhellion sy'n codi'n benodol o'r gwaith dilynol hwn eu nodi yn **Arddangosyn 1**. Mae ymateb y Bwrdd Iechyd i'r argymhellion hyn wedi cael ei gynnwys yn **Atodiad 3**. Caiff argymhellion sy'n codi trwy ein hadroddiad rhanbarthol ehangach ar lif cleifion sy'n berthnasol i'r argymhellion o'n gwaith yn 2018, ac sydd wedi disodli'r rhain, eu nodi yn **Arddangosyn 2**. Dylai'r Bwrdd Iechyd ymateb i'r argymhellion hyn fel rhan o gwblhau'r adroddiad rhanbarthol.

**Arddangosyn 1: argymhellion newydd sy'n codi o'r gwaith dilynol hwn**

| **Argymhellion** | |
|---|---|
| A1 | Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu a dogfennu'r holl lwybrau rhyddhau cleifion cyfredol, gan sicrhau:<br>• bod cysylltiadau eglur rhwng pob un o'r llwybrau;<br>• bod gwybodaeth esboniadol ar gael;<br>• bod yr holl lwybrau'n cael eu disgrifio mewn un man; a<br>• bod llwybrau'n gyson ar draws y Bwrdd Iechyd. |
| A2 | Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu'r modd yr adroddir ar berfformiad wrth y Bwrdd, ei bwyllgorau ac ar lefel weithredol, i sicrhau bod metrigau a gynhwysir yn dangos effeithiolrwydd ac effaith trefniadau cyfredol ar gyfer cynllunio i ryddhau cleifion. Gall enghreifftiau gynnwys:<br>• nifer y cleifion a gaiff eu rhyddhau cyn canol dydd;<br>• nifer y cleifion y mae eu dyddiad rhyddhau disgwyliedig wedi'i gofnodi;<br>• y dyddiad pan fo cleifion yn ffit yn feddygol i gael eu rhyddhau;<br>• pa un a yw'r broses ryddhau'n syml ynteu'n gymhleth;<br>• nifer yr aildderbyniadau a osgowyd oherwydd cynllunio da i ryddhau cleifion;<br>• nifer y cleifion nad oes angen cymorth tymor hwy arnynt;<br>• nifer y lleoliadau parhaol mewn lleoliadau gofal preswyl a osgowyd. |

Ffynhonnell yr Arddangosyn: Archwilio Cymru

**Arddangosyn 2: argymhellion wedi’u cynnwys yn yr adroddiad rhanbarthol ar lif cleifion sy’n disodli argymhellion blaenorol 2018**

| Argymhellion rhanbarthol | |
|---|---|
| A3 | Gan weithio gydag awdurdodau lleol, dylai’r Bwrdd Iechyd wneud y canlynol:<br>3.1 datblygu canllawiau y cytunwyd arnynt ar y cyd i ddarparu eglurder ar gyfer yr holl staff ynghylch sut y dylai’r broses o gynllunio i ryddhau cleifion weithio ledled y rhanbarth. Dylai’r rhain fod yn seiliedig ar y canllawiau cenedlaethol a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2023 a dylent nodi rolau a chyfrifoldebau wedi’u diffinio’n glir, a disgwyliadau, gan gynnwys pryd y dylid gwneud atgyfeiriadau ar gyfer gofal parhaus.<br>3.2 sicrhau bod prosesau yn eu lle i gyfleu canllawiau ynghylch cynllunio i ryddhau cleifion i’r holl staff iechyd a gwasanaethau cymdeithasol perthnasol, gan gynnwys y rhai sy’n gweithio dros dro, gyda hynny’n cael ei ategu gan raglen barhaus o hyfforddiant diweddaru a hyfforddiant sefydlu i staff newydd. |

Ffynhonnell yr Arddangosyn: Archwilio Cymru

# Adroddiad manwl

## Rhoi argymhellion archwilio blaenorol ar waith

11 Fe wnaethom ystyried cynnydd y Bwrdd Iechyd o ran rhoi'r argymhellion a wnaethom yn 2018 ar waith. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar y canlynol:

- cwmpas y polisi rhyddhau (Argymhelliad 1);
- llwybrau rhyddhau (Argymhelliad 2);
- hyfforddiant ar gynllunio i ryddhau cleifion (Argymhellion 3a, b ac c); ac
- adroddiadau rhyddhau (Argymhelliad 4).

12 Ar y cyfan canfuom **mai ychydig o gynnydd y mae'r Bwrdd Iechyd wedi ei wneud o ran mynd i'r afael â'n hargymhellion blaenorol. Nid oes polisi na hyfforddiant i staff ar ddiogelu ar draws y Bwrdd Iechyd cyfan, ac nid yw llwybrau rhyddhau cleifion wedi cael eu dogfennu'n glir. Er bod amryw fentrau rhyddhau cleifion wedi cael eu rhoi ar waith ers ein harchwiliad blaenorol, mae cyfleoedd o hyd i gryfhau ymhellach y modd yr adroddir ar berfformiad.**

### Cwmpas y polisi rhyddhau

13 Fe wnaethom ystyried a yw'r Bwrdd Iechyd wedi sicrhau bod ei bolisi rhyddhau cleifion yn cynnwys cyfeiriad at gynllunio i ryddhau cleifion yn gynnar, y risg o aildderbyn cleifion, a rhyddhau cleifion o Adrannau Argyfwng (Argymhelliad 1 yn 2018).

14 Canfuom **nad oes gan y Bwrdd Iechyd un polisi rhyddhau ar draws y Bwrdd Iechyd sy'n adlewyrchu trefniadau cyfredol ar gyfer cynllunio i ryddhau cleifion.**

15 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi mabwysiadu canllawiau cenedlaethol Rhyddhau i Adfer yna Asesu (D2RA) Llywodraeth Cymru ond nid oes polisi rhyddhau cleifion lleol ffurfiol ac sydd ar gael yn eang sy'n rhoi anogaeth i gynllunio i ryddhau cleifion yn gynnar, ystyried y risg o aildderbyn cleifion a rhyddhau cleifion o Adrannau Argyfwng.

16 Fe ddatblygodd y Bwrdd Iechyd Strategaeth Rhyddhau Cleifion Integredig (IDS), a gymeradwywyd ym mis Mai 2024. Ymarfer cydweithredol oedd hwn a oedd yn cynnwys awdurdodau lleol Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot a'r trydydd sector. Mae'n cynnwys pedair rhaglen, ac un o'r rhain oedd lansio'r Hyb Rhyddhau Cleifion Integredig (IDH). Mae'r Hyb Rhyddhau Cleifion Integredig yn fenter ddatblygol sydd wedi'i bwriadu fel 'un pwynt mynediad ar gyfer yr holl atgyfeiriadau o wardiau' y mae angen gwasanaethau sylfaenol a chymunedol ar eu cyfer. Nod y rhaglen yw cydlynu taith esmwyth ar gyfer cleifion o'r ysbyty i mewn i'r gymuned sy'n cyd-fynd ag egwyddorion D2RA. Ceir model strategol ar gyfer sut y dylai claf 'lifo' trwy'r Hyb Rhyddhau Cleifion Integredig, ond ar adeg ein hadolygiad nid oedd canllawiau a oedd wedi'u cymeradwyo ac ar gael yn eang i sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r broses.

17 Ceir gwybodaeth ad hoc hefyd y gellir ei defnyddio i ategu'r broses rhyddhau cleifion. Mae'r rhain yn cynnwys llythyr 'Cynllunio Eich Rhyddhad o'r Ysbyty' ar gyfer cleifion. Mae hwn fel arfer yn amlinellu bwriad y Bwrdd Iechyd i gynllunio i ryddhau claf ar ôl i'r claf gyrraedd a manteision gwella gartref o'i gymharu ag mewn ysbyty. Ceir hefyd dudalen we ar wefan y Bwrdd Iechyd sy'n egluro rôl y Lolfa Rhyddhau Cleifion yn Ysbyty Treforys a sut y gall staff atgyfeirio cleifion ati. Fodd bynnag, nid yw'n glir sut y defnyddir yr wybodaeth hon a sut y trefnir ei bod ar gael i gleifion a staff a sut y mae'n tanategu proses rhyddhau cleifion y Bwrdd Iechyd.

18 I ddwyn ynghyd y gweithgarwch rhyddhau amrywiol, mae angen datblygu polisi rhyddhau cleifion wedi'i ddiweddaru sy'n rhoi adlewyrchiad gwell o'r trefniadau a'r prosiectau sydd ar waith ar hyn o bryd ac sy'n cyd-fynd â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Dylai hyn hefyd gynnwys, fel a argymhellwyd yn flaenorol, cynllunio i ryddhau cleifion yn gynnar, y risg o aildderbyn cleifion, a rhyddhau cleifion o Adrannau Argyfwng, a dylai nodi rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir, a disgwyliadau, gan gynnwys pryd y dylid gwneud atgyfeiriadau ar gyfer gofal parhaus. Rydym felly'n ystyried **na weithredwyd o gwbl ar argymhelliad 1 (wedi'i ddisodli gan Argymhelliad Rhanbarthol 3.1).**

## Llwybrau rhyddhau

19 Fe wnaethom ystyried a yw'r Bwrdd Iechyd wedi adolygu'r holl lwybrau cyfredol sy'n cael eu defnyddio ac wedi defnyddio'r cyfle i:

- ystyried eu rhesymoli (cael gwared ag unrhyw achosion diangen o orgyffwrdd);
- gwneud y cysylltiadau rhwng pob un o'r llwybrau yn fwy eglur;
- gwneud unrhyw wybodaeth esboniadol yn gliriach;
- disgrifio'r holl lwybrau mewn un man; a
- sicrhau bod llwybrau'n gyson ar draws y Bwrdd Iechyd (Argymhelliad 2).

20 Canfuom fod **gan y Bwrdd Iechyd amryw lwybrau rhyddhau cleifion ar draws safleoedd, ond bod gwaith i'w wneud o hyd i sicrhau eu bod yn eglur ac yn gyson ac wedi'u ffurfioli ar draws y Bwrdd Iechyd.**

21 Fel a adnabuwyd yn flaenorol, mae Strategaeth Rhyddhau Cleifion Integredig newydd y Bwrdd Iechyd yn disgrifio'r camau y bydd claf yn symud drwyddynt unwaith y caiff ei atgyfeirio at yr Hyb Rhyddhau Cleifion Integredig. Mae hyn yn cynnwys adolygiad gan dîm amlddisgyblaethol o'r atgyfeiriad cyn sgwrs 'Yr Hyn sy'n Bwysig', adnabod llwybr cytunedig ar gyfer rhyddhau'r claf ac atgyfeiriad ymlaen at wasanaeth priodol. Cafodd hyn ei dreialu yn Ysbyty Treforys yn haf 2024 ac mae bellach wedi cael ei estyn i Ysbyty Castell-nedd Port Talbot ac Ysbyty Singleton. Mae disgwyl i'r model gael ei wreiddio fel busnes fel arfer yn y dyfodol.

22 Fel a adnabuwyd ym **mharagraff 15**, nid oes un polisi rhyddhau cleifion cyfredol a oleuwyd gan adolygiad o'r holl lwybrau blaenorol ac sy'n dwyn llwybrau presennol ynghyd â gwybodaeth esboniadol. Ceir amryw fentrau rhyddhau cleifion sy'n cyfrannu at lwybrau gwell. Mae'r llwybrau hyn yn cael eu hehangu ar draws

safleoedd y Bwrdd Iechyd, ond mae gwaith i'w wneud o hyd i ffurfioli'r broses hon a sicrhau bod llwybrau rhyddhau cleifion cyson yn eglur ac yn hygyrch i'r holl staff a chleifion ac ar gael mewn un lle. Rydym felly'n ystyried **na weithredwyd o gwbl ar argymhelliad 2 (wedi'i ddisodli gan Argymhelliad 1 yn 2025).**

## Hyfforddiant ar gynllunio i ryddhau cleifion

23 Fe wnaethom ystyried a yw'r Bwrdd Iechyd:

- wedi sicrhau bod presenoldeb mewn hyfforddiant yn cael ei nodi ar gofnod electronig y staff, fydd yn helpu i wella'r trefniadau i fonitro cydymffurfiaeth (Argymhelliad 3a yn 2018);
- wedi datblygu hyfforddiant sy'n cynorthwyo i feithrin hyder y staff er mwyn rhyddhau cleifion yn fwy prydlon ac ymdrin â sgyrsiau anodd â chleifion a'u teuluoedd (Argymhelliad 3b yn 2018); ac
- wedi ystyried a oes angen i feddygon ymgynghorol dderbyn hyfforddiant ar ryddhau cleifion a bod yn ymwybodol o faterion a pholisi (Argymhelliad 3c yn 2018).

24 Canfuom **nad oes hyfforddant rhyddhau cleifion ffurfiol ar gyfer staff am nad oes un polisi rhyddhau cleifion ar draws y Bwrdd Iechyd cyfan wedi cael ei ddatblygu eto.**

25 Fel a grybwyllir ym **mharagraff 21**, mae angen i'r Bwrdd Iechyd ddwyn ynghyd yr amrywiaeth o weithgarwch rhyddhau cleifion a datblygu polisi rhyddhau cleifion wedi'i ddiweddaru sy'n rhoi adlewyrchiad gwell o drefniadau cyfredol y Bwrdd Iechyd. Gan nad oes un polisi rhyddhau cleifion ar waith, nid oes hyfforddiant ar draws y Bwrdd Iechyd cyfan i gyfleu a hyrwyddo un polisi rhyddhau cleifion i staff a chleifion sy'n nodi rolau a chyfrifoldebau eglur ac yn cynnwys hyfforddiant diweddaru a hyfforddiant sefydlu i ddechreuwyr newydd. O ganlyniad, nid oes ffordd o ymdrin ag agweddau ar argymhellion blaenorol 3a, 3b a 3c. Rydym felly'n ystyried **na weithredwyd o gwbl ar argymhellion 3a, 3b a 3c (wedi'u disodli gan Argymhelliad Rhanbarthol 3.2 yn 2025)**

## Adroddiadau rhyddhau

26 Fe wnaethom ystyried a yw'r Bwrdd Iechyd wedi atgyfnerthu ei drefniadau i adrodd ar berfformiad gerbron y Bwrdd a'i Bwyllgorau (Argymhelliad 4 yn 2018) drwy gynnwys mesurau ychwanegol yn ei adroddiad rheolaidd ar berfformiad:

- nifer a chanran y cleifion yr amcanwyd dyddiad rhyddhau ar eu cyfer;
- aildderbyniadau cyn pen 28 diwrnod ar ôl rhyddhau o'r ysbyty;
- y ganran sy'n cael eu rhyddhau cyn hanner dydd;
- canran yr achosion o ryddhau sy'n digwydd yn ystod y nos, heb gynllunio ar eu cyfer; a
- chanran yr achosion o ryddhau cyn pen 24 awr a 72 awr ar ôl datgan bod claf yn 'feddygol iach'.

27 Canfuom **er bod y Bwrdd a phwyllgorau'n monitro rhai agweddau ar berfformiad o ran cynllunio i ryddhau cleifion, fod cyfleoedd o hyd i gryfhau'r modd yr adroddir ar berfformiad.**

28 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cael amrywiaeth o ddiweddariadau ar ryddhau cleifion o'r ysbyty a llif cleifion trwy ei adroddiadau rheolaidd ar berfformiad i'r Bwrdd a phwyllgorau gan gynnwys nifer y cleifion sy'n ffit yn glinigol ar bob un o safleoedd y Bwrdd Iechyd a nifer y triniaethau dewisol a ganslwyd oherwydd diffyg gwlâu.

29 Mae'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch hefyd wedi cael diweddariadau ar gynnydd y Strategaeth Rhyddhau Cleifion Integredig ers ei lansio ym mis Mai 2024 yn ogystal â gwybodaeth berthnasol am berfformiad o ran ansawdd sy'n gysylltiedig â rhyddhau cleifion o'r ysbyty. Mae'r diweddariadau'n cynnwys data dangosyddion perfformiad allweddol ar yr Hyb Rhyddhau Cleifion Integredig sy'n amlinellu'r effaith y mae'r prosiect yn ei chael. Fel rhan o Strategaeth Rhyddhau Cleifion Integredig y Bwrdd Iechyd a'r Hyb Rhyddhau Cleifion Integredig (IDH), mae nifer o fesurau perfformiad ychwanegol wedi cael eu datblygu. Mae'r rhain yn cynnwys, ymhlith eraill, yr 'amser cyfartalog rhwng atgyfeiriad at yr Hyb Rhyddhau Cleifion Integredig ac atgyfeiriad ymlaen at wasanaeth priodol' a '% yr unigolion a osodir ar y llwybr D2RA cywir ar gyfer eu rhyddhau'.

30 Fodd bynnag, nid adroddir ar y dangosyddion perfformiad a argymhellwyd gennym yn flaenorol. Yn weithredol, fe wnaethom adolygu adroddiadau chwarterol ar gleifion sy'n ffit yn glinigol a oedd yn cael eu monitro gan y Bwrdd Rheoli. Roedd yr adroddiadau'n gynhwysfawr, yn cwmpasu'r sefyllfa gyfredol o ran cleifion sy'n ffit yn glinigol fesul safle ysbyty yn ogystal â llinell amser o brosiectau a digwyddiadau perthnasol a allai effeithio ar ryddhau cleifion o'r ysbyty, megis cyflwyno SAFER a datgomisiynu gwlâu camu-i-lawr. Fodd bynnag, rhoddwyd y gorau i'r adroddiad hwn ym mis Mawrth 2024.

31 O ystyried y pwysau sylweddol a pharhaus a achosir gan y llif cleifion gwael, mae'n bwysig bod y Bwrdd Iechyd yn monitro effeithiolrwydd ei broses rhyddhau cleifion, gydag adroddiadau ar fesurau perfformiad allweddol ar lefel y Bwrdd a phwyllgorau. Rydym felly'n ystyried bod **cam gweithredu'n mynd rhagddo i ymdrin ag argymhelliad 4 (wedi'i ddisodli gan Argymhelliad 2 yn 2025).**

# Atodiad 1

## Dulliau archwilio

Mae **Arddangosyn 3** yn nodi'r dulliau a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni'r gwaith hwn. Roedd y dulliau'n rhan o'r dulliau archwilio a ddefnyddiwyd i gyflawni ein hadolygiad rhanbarthol ehangach.

**Arddangosyn 3: dulliau archwilio**

| Elfennau o'r dulliau archwilio | Disgrifiad |
|---|---|
| Dogfennau | Fe wnaethom adolygu ystod o ddogfennau, gan gynnwys:<br>• Papurau'r Bwrdd a phwyllgorau<br>• Cynlluniau gweithredol a strategol a oedd yn ymwneud â gofal brys ac argyfwng<br>• Y Weithdrefn Weithredu Safonol ar gyfer cynllunio i ryddhau cleifion |
| Cyfweliadau | Fe wnaethom gyfweld â'r canlynol:<br>• Rheolwr y Rhaglen Gofal Brys ac Argyfwng<br>• Y Prif Swyddog Gweithredu<br>• Cyfarwyddwr Meddygol y Grŵp Gwasanaethau ar gyfer Gofal Sylfaenol, Gwasanaethau Cymunedol a Therapïau<br>• Cyfarwyddwr y Grŵp Gwasanaethau ar gyfer Ysbyty Treforys |
| Arsylwadau | Fe wnaethom hefyd arsylwi ar y canlynol:<br>• Y Cydlynydd Rhyddhau Cleifion yn Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot<br>• Y Pwyllgor Perfformiad a Chyllid |
| Dadansoddi data | Fe wnaethom ddadansoddi'r set ddata fisol ar gyfer oedi cyn rhyddhau cleifion a gyflwynwyd i Weithrediaeth y GIG. Fe wnaethom hefyd ddadansoddi data a ddarparwyd gan y Bwrdd Iechyd ynghylch yr holl gleifion meddygaeth argyfwng a ryddhawyd ym mis Hydref 2022 â hyd arhosiad o fwy na 21 diwrnod (heb gynnwys y rhai a fu farw). |

| Elfennau o’r dulliau archwilio | Disgrifiad |
|---|---|
| Adolygiad o nodiadau achosion | Fe wnaethom adolygu sampl o 32 o nodiadau achosion a oedd yn ymwneud â chleifion meddygaeth argyfwng a ryddhawyd ym mis Hydref 2022 â hyd arhosiad o fwy na 21 diwrnod (heb gynnwys y rhai a fu farw) |
| Hunanasesiad | Fe ofynnom ni i’r Bwrdd Iechyd gwblhau a chyflwyno hunanasesiad, a hwnnw’n nodi ei farn ynglŷn â’r cynnydd yn erbyn ein hargymhellion yn 2018. |

# Atodiad 2

## Crynodeb o’r cynnydd yn erbyn yr argymhellion a wnaethom yn 2018

Mae **Arddangosyn 4** yn nodi’r argymhellion a wnaethom yn 2018 a’n crynodeb o’r cynnydd

| Argymhellion | Cynnydd |
| --- | --- |
| **Polisi Rhyddhau**<br>A1 Er bod y polisi'n cymharu'n dda â'r matrics aeddfedrwydd arfer da, nodwyd sawl maes lle gellid cryfhau polisi rhyddhau cleifion y Bwrdd Iechyd. Wrth adolygu'r polisi, dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod e bolisi rhyddhau cleifion yn cynnwys cyfeiriad at gynllunio i ryddhau yn fuan, y risg o aildderbyn cleifion, a rhyddhau o Adrannau Achosion Brys. | **Dim gweithredu** – gweler **paragraffau 15 i 18** (wedi’i ddisodli gan argymhelliad rhanbarthol 3.1 yn 2025). |
| **Llwybrau rhyddhau**<br>A2 Wrth adolygu llwybrau rhyddhau'r Bwrdd Iechyd, gwelsom y gellid cyflwyno sawl gwelliant i gryfhau'r defnydd o lwybrau rhyddhau. Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu'r holl lwybrau sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd a manteisio ar y cyfle i:<br>• ystyried eu rhesymoli (cael gwared ag unrhyw achosion diangen o orgyffwrdd);<br>• gwneud y cysylltiadau rhwng pob un o'r llwybrau yn fwy eglur;<br>• gwneud unrhyw wybodaeth esboniadol yn gliriach;<br>• disgrifio'r holl lwybrau mewn un man; a<br>• sicrhau bod llwybrau'n gyson ar draws y Bwrdd Iechyd. | **Dim gweithredu** gweler **paragraffau 21 i 22** (wedi’i ddisodli gan Argymhelliad 1 yn 2025). |

| Argymhellion | Cynnydd |
| --- | --- |
| **Hyfforddiant ar gynllunio i ryddhau cleifion**<br>A3 Er bod staff ar y cyfan yn ymwybodol o'r broses cynllunio i ryddhau cleifion, yr oedd bylchau yn y trefniadau hyfforddi ac roedd angen cynyddu hyder y staff. Dylai'r Bwrdd Iechyd:<br>a) sicrhau bod presenoldeb ar gyrsiau hyfforddi yn cael ei nodi ar gofnod electronig y staff, fydd yn helpu i wella'r trefniadau i fonitro cydymffurfiaeth;<br>b) datblygu hyfforddiant sy'n cynorthwyo i feithrin hyder y staff er mwyn rhyddhau cleifion yn fwy prydlon ac ymdrin â sgyrsiau anodd â chleifion a'u teuluoedd; ac<br>c) ystyried a oes angen i feddygon ymgynghorol dderbyn hyfforddiant ar ryddhau cleifion a bod yn ymwybodol o faterion a pholisi. | **Dim gweithredu** – gweler **paragraff 25** (wedi'i ddisodli gan argymhelliad rhanbarthol 3.2 yn 2025). |
| **Adroddiadau rhyddhau**<br>A4 Gwelsom fod y Bwrdd, y Tîm Gweithredol a'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn derbyn gwybodaeth reolaidd am achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal. Serch hynny, ychydig o wybodaeth a gyflwynir iddynt yn benodol am gynllunio i ryddhau cleifion a fyddai o gymorth i sicrhau dealltwriaeth well o'r rhesymau wrth wraidd perfformiad y Bwrdd Iechyd. Dylai'r Bwrdd Iechyd atgyfnerthu ei drefniadau i adrodd ar berfformiad gerbron y Bwrdd a'i Bwyllgorau drwy gynnwys mesurau ychwanegol yn ei adroddiad rheolaidd ar berfformiad:<br>• nifer a chanran y cleifion yr amcanwyd dyddiad rhyddhau ar eu cyfer;<br>• aildderbyniadau cyn pen 28 diwrnod ar ôl rhyddhau o'r ysbyty;<br>• y ganran sy'n cael eu rhyddhau cyn hanner dydd;<br>• canran yr achosion o ryddhau sy'n digwydd yn ystod y nos, heb gynllunio ar eu cyfer; a<br>• chanran yr achosion o ryddhau cyn pen 24 awr a 72 awr ar ôl datgan bod y claf yn 'feddygol iach'. | **Cam gweithredu'n mynd rhagddo** – gweler **paragraffau 28 i 31** (wedi'i ddisodli gan Argymhelliad 2 yn 2025). |

Ffynhonnell yr Arddangosyn: Archwilio Cymru

# Atodiad 3

## Ymatebion y rheolwyr i'r argymhellion archwilio

Mae **Arddangosyn 5** yn nodi ymateb y Bwrdd Iechyd i'n hargymhellion archwilio.

**Arddangosyn 5: ymateb y rheolwyr**

| Argymhelliad | | Ymateb y rheolwyr<br>Nodwch yma sylwebaeth berthnasol ar y camau gweithredu arfaethedig mewn ymateb i'r argymhellion | Dyddiad cwblhau<br>Nodwch erbyn pryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig wedi'u cwblhau | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| A1 | Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu a dogfennu'r holl lwybrau rhyddhau cleifion cyfredol, gan sicrhau:<br>• bod cysylltiadau eglur rhwng pob un o'r llwybrau;<br>• bod gwybodaeth esboniadol ar gael;<br>• bod yr holl lwybrau'n cael eu disgrifio mewn un man; a<br>• bod llwybrau'n gyson ar draws y Bwrdd Iechyd. | Mae'r llwybrau rhyddhau cleifion cyfredol yn cyd-fynd â llwybrau GIG Cymru/Y Chwe Nod/D2RA.<br>Fe gynhaliwyd ymgyrch hyrwyddo yn ystod 2024 yn dilyn newidiadau i'r diffiniadau o Lwybrau a weithredwyd gan Dîm Cenedlaethol y Chwe Nod. Mae hyn wedi arwain at ddatblygu taflenni, posteri a gwefan benodol ochr yn ochr â sesiynau ymgysylltu â staff.<br>Ym mis Mehefin 2024, fe lansiwyd Hyb Rhyddhau Cleifion Integredig (IDH) a chanddo gyfrifoldeb am reoli'r modd y rhyddheir cleifion i'r | Mae'r holl gamau gweithredu a ddisgrifir yn eu lle ar adeg yr ymateb hwn. | **Emily Warren**<br>**Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gweithrediadau, Gwasanaethau Gofal Sylfaenol, Gwasanaethau Cymunedol a Therapïau** |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr<br>**Nodwch yma sylwebaeth berthnasol ar y camau gweithredu arfaethedig mewn ymateb i'r argymhellion** | Dyddiad cwblhau<br>**Nodwch erbyn pryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig wedi'u cwblhau** | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|
| | llwybrau D2RA. Un lleoliad ar gyfer yr holl weithgarwch a gwybodaeth yw hwn.<br>Mae'r llwybrau'n gyfnewidiol gan ddibynnu ar anghenion cleifion ac maent bellach yn cael eu cydlynu trwy'r Hyb Rhyddhau Cleifion Integredig.<br>Caiff y llwybrau eu hegluro yn yr un geiriau â'r hyn a nodir gan ddogfennaeth genedlaethol y Chwe Nod.<br>Mae'r llwybrau'n gyson ar gyfer yr holl gleifion ar draws y Bwrdd Iechyd.<br>Ceir gwaith datblygu parhaus i ddarparu adnoddau llawn ar gyfer Model Hyb Rhyddhau Cleifion Integredig sy'n weithredol ar draws pob safle, gan gynnwys drws blaen a drws cefn. | | |
| A2 Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu'r modd yr adroddir ar berfformiad wrth y Bwrdd, ei bwyllgorau ac ar lefel weithredol, i sicrhau bod metrigau a gynhwysir yn dangos effeithiolrwydd ac effaith gweithgarwch cyfredol i gynllunio i ryddhau cleifion. Gall enghreifftiau gynnwys: | Fel rhan o gyflawni'r Cynllun Gweithredu ar oedi gyda Llwybrau Gofal BIPBA/Gorllewin Morgannwg, mae cyfarfod sicrwydd gweithredol wythnosol yn ei le i adolygu perfformiad. Wedyn caiff pecyn perfformiad wythnosol ei baratoi a'i anfon at Swyddogion Gweithredol yn y Bwrdd Iechyd a Chyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol.<br>Mae nifer o fentrau wedi cael eu rhoi ar waith dros y misoedd diwethaf i hwyluso gwaith mwy | Mae'r holl bwyntiau a nodwyd yn yr adran hon yn eu lle. Fodd bynnag, mae gwelliant yn y llif yn dal i fod yn flaenoriaeth barhaus i'r Bwrdd Iechyd a chan hynny mae pob eitem yn dal i fod | **Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gweithrediadau – Gofal Brys ac Argyfwng** |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr<br>**Nodwch yma sylwebaeth berthnasol ar y camau gweithredu arfaethedig mewn ymateb i'r argymhellion** | Dyddiad cwblhau<br>**Nodwch erbyn pryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig wedi'u cwblhau** | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|
| • nifer y cleifion a gaiff eu rhyddhau cyn canol dydd;<br>• nifer y cleifion y mae eu dyddiad rhyddhau disgwyliedig wedi'i gofnodi;<br>• y dyddiad pan fo cleifion yn ffit yn feddygol i gael eu rhyddhau;<br>• pa un a yw'r broses ryddhau'n syml ynteu'n gymhleth;<br>• nifer yr aildderbyniadau a osgowyd oherwydd cynllunio da i ryddhau cleifion;<br>• nifer y cleifion nad oes angen cymorth tymor hwy arnynt;<br>• nifer y lleoliadau parhaol mewn lleoliadau gofal preswyl a osgowyd. | gweithredol, mewn amser real i fonitro'r llif. Mae'r rhain yn cynnwys:<br>• Dangosfwrdd BI newydd ar gyfer Oedi gyda Llwybrau Gofal a ddatblygwyd ac a aeth yn fyw o fis Chwefror 2025, gan dynnu'n uniongyrchol ar ein system cynllunio i ryddhau cleifion, SIGNAL.<br>• mae'r dyddiad/amser y rhyddheir cleifion yn cael ei gofnodi yn System Gweinyddu Cleifion Cymru, ac mae'r mesur hwn ar gael yn y dangosfwrdd SAFER Home - SAFER - Power BI.<br>• mae'r data Dyddiad Rhyddhau Disgwyliedig yn cael ei gofnodi yn Signal, ac mae'r mesur hwn ar gael yn y dangosfwrdd SAFER.<br>• Mae statws Ffit yn Glinigol yn cael ei gofnodi yn Signal ac mae gennym ychydig o adroddiadau sy'n bwrw golwg ar fesurau mewn perthynas â hyn Home - Clinically Optimised Patients and Pathways of Care Delays - Power BI.<br>• mae'r iaith hon yn ymwneud â'r canllawiau rhyddhau cleifion 'Passing the Baton', sy'n dyddio'n ôl i 2008. Byddai achosion rhyddhau cymhleth yn y llwybrau D2RA yn rhai llwybr 3 a ddiffinnir fel cymorth cymhleth – cesglir yr wybodaeth hon. | yn ailadroddus a pharhaus o ran ei natur. | |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr<br>Nodwch yma sylwebaeth berthnasol ar y camau gweithredu arfaethedig mewn ymateb i'r argymhellion | Dyddiad cwblhau<br>Nodwch erbyn pryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig wedi'u cwblhau | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|
| | • caiff cyfraddau aildderbyn eu hadolygu yn unol â chanllawiau mesur Llywodraeth Cymru h.y. o fewn 30 diwrnod. Fodd bynnag nid ydynt yn cael eu categoreiddio yn ôl y rheswm dros aildderbyn.<br>• adroddiad cryno wythnosol, a rennir gyda – Swyddogion Gweithredol – wedi'i atodi. | | |

Archwilio Cymru

1 Cwr y Ddinas, Stryd Tyndall

Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.